

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Modiwl ôl-raddedig hyblyg wedi'i bersonoli a fydd yn eich galluogi i archwilio maes o'ch dewis yn fanwl. Dewch â phroblem neu gwestiwn rydych am ymchwilio iddo - efallai o'ch cyd-destun proffesiynol, neu faes astudio blaenorol neu ddiddordeb personol rydych am ddysgu mwy amdano. Gyda help eich tiwtor a'r adnoddau sydd ar gael, fe'ch dangosir sut i gynnal ymchwiliad trwyadl, gan eich galluogi i lunio ateb personol yr ymchwiliwyd iddo yn drylwyr.

Modiwl newydd yw hwn a gaiff ei gyflwyno ym mis Hydref 2020 am y tro cyntaf. Cynigir y modiwl yn fyd-eang a chaiff ei addysgu ar-lein yn gyfan gwbl, felly darperir cymorth i fyfyrwyr naill ai ar-lein neu dros y ffôn.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig
- profiad blaenorol o addysgu ôl-raddedig o bell mewn lleoliad addysg uwch
- hanes amlwg o hwyluso gwaith dysgu o fewn ac ar draws ystod eang o lwyfannau a chyfryngau dysgu ac addysgu, amgylcheddau ar-lein, fforymau ar-lein a/neu dros y ffôn
- y gallu i hwyluso gwaith dysgu amrywiaeth eang o bynciau
- dealltwriaeth o waith dysgu hunangyfeiriedig myfyrwyr, a'r gallu i'w gefnogi
- ymrwymiad i annog a galluogi dysgwyr sy'n oedolion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau astudio ar lefel ôl-raddedig
- sensitifrwydd i amrywiaeth anghenion dysgu oedolion a phrofiad o weithio gyda myfyrwyr o amrywiaeth o amgylcheddau gwahanol.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o gefnogi myfyrwyr mewn modiwlau prosiect neu draethawd hir
- y gallu i gefnogi myfyrwyr i gynnal prosiectau ymchwil gan gynnwys cynefindra â methodolegau ymchwil, moeseg, cwestiynau ymchwil, adolygiadau o lenyddiaeth a dadansoddi data.

Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd yn ofynnol i chi farcio tri aseiniad ar-lein ac asesiad diwedd modiwl terfynol.
- Bydd cyfleoedd pellach i ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl ychwanegol amdano, megis ailfarco – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	4.5